



Environment
Agency
Asiantaeth yr
Amgylchedd

defnyddio'r trap cywir



Canllaw i drapio cimychiaid afon

Asiantaeth yr Amgylchedd ydym ni. Ein gwaith ni yw gofalu am eich amgylchedd chi, a'i wneud yn **lle gwell** – i chi, ac i genedlaethau'r dyfodol.

Eich amgylchedd yw'r aer a anadlwch, y dŵr a yfwch, a'r ddaear y cerddwch arni. Gan weithio gyda busnesau, y Llywodraeth a chymdeithas yn gyfan, rydym yn gwneud eich amgylchedd yn lanach ac yn iachach.

Asiantaeth yr Amgylchedd. Allan yn y maes, yn gwneud eich amgylchedd yn lle gwell.

Cyhoeddwyd gan:

Asiantaeth yr Amgylchedd
Rio House
Waterside Drive, Aztec West
Almondsbury, Bryste BS32 4UD
Ffôn: 0870 8506506
E-bost: enquiries@environment-agency.gov.uk
www.environment-agency.gov.uk

© Asiantaeth yr Amgylchedd

Cedwir pob hawl. Caniateir atgynhyrchu'r ddogfen hon gyda chaniatâd Asiantaeth yr Amgylchedd o flaen llaw.
GEHO0310BRVG-B-E Chwefror 2010-03-11

Crynodeb

Os ydych chi eisiau trapio cimychiaid afon, mae'n hanfodol eich bod yn ofalus ac yn dilyn y rheolau. Os nad ydych, gallwch ganfod eich bod yn torri'r gyfraith.

Y prif bwyntiau:

- Mae cimychiaid afon brodorol yn rhywogaeth warchoddedig. Fe'u ceir yn awr mewn dim ond nifer fach o fannau yng Nghymru a Lloegr. Fedr wch chi ddim eu trapio er mwyn eu bwyta na'u gwerthu.
- Gallwch drapio cimychiaid afon anffrodorol – ond *dim ond* os oes gennych ganiatâd ysgrifenedig oddi wrth Asiantaeth yr Amgylchedd ac rydych yn defnyddio'r tagiau adnabod trapiau byddwn yn eu hanfon atoch.
- Mae angen caniatâd arnoch, yn ogystal, oddi wrth berchennog y tir.
- Mae angen i chi sicrhau fod eich trapiau o'r maint cywir. Os nad ydynt, gallant wneud niwed i fywyd gwyllt arall fel dyfrgwn a llygod y dŵr. Byddwn yn gwrthod ceisiadau sy'n bygwth gwneud niwed i'r creaduriaid hyn.
- Rhaid i chi roi gwybod i Asiantaeth yr Amgylchedd am y cimychiaid afon byddwch yn eu dal – ar ffurflen adrodd am ddalfa.
- Mae cimychiaid afon arwyddol anffrodorol yn cario pla cimychiaid. Mae hyn yn lladd ein rhywogaeth frodorol. Os buoch yn trapio cimychiaid afon arwyddol neu bysgota mewn dyfroedd wedi'u heintio, rhaid i chi ddiheintio eich offer yn drylwyr cyn ei ddefnyddio yn rhywle arall.
- Mewn rhai ardaloedd mae angen trwydded arbennig arnoch yn ogystal er mwyn cadw cimychiaid yn fwy ar ôl eu trapio. Gweler adran 9 am fanylion.

Gallwch ganfod y rhan fwyaf o'r wybodaeth sydd arnoch ei hangen yn y pecyn hwn:

1. Sut i wneud cais am ganiatâd i drapio cimychiaid afon anffrodorol.
2. Gwybodaeth allweddol sydd ei hangen ar gyfer eich cais.
3. Llenwi'r ffurflen adrodd am ddalfa.
4. Adnabod mathau o gimychiaid.
5. Gwarchodwch lygod y dŵr.



6. Gwarchodwch Ddyfrgwn.
7. Cyflenwyr trapiau cimychiaid.
8. Ataliwch bla cimychiaid rhag ymledu.
9. Gwybodaeth bellach.
10. Pwy i gysylltu â nhw.

Am wybodaeth gyffredinol bellach, galwch y **Tîm Symudiadau Pysgod ar 01480 483968.**

Am wybodaeth leol, ffoniwch **Wasanaethau Cwsmeriaid Asiantaeth yr Amgylchedd ar 08708 506 506** a gofynnwch i gael siarad â'ch Swyddog Pysgodfeydd lleol.

1 Sut i wneud cais am ganiatâd i drapio cimychiaid afon anfredorol

Ffurflen gais

Mae'r ffurflen gais yn gofyn am rwyfaint o wybodaeth benodol:

- amdanoch chi;
- ynghylch ble byddwch yn trapio;
- dyddiadau ar gyfer trapio;
- y rheswm dros drapio;
- y rhywogaeth rydych yn bwriadu ei trapio;
- y math a'r nifer o drapiau byddwch yn eu defnyddio.

Mae'r wybodaeth hon yn ein caniatáu i asesu p'un ai y gallwch drapio cimychiaid afon heb wneud niwed i'r amgylchedd dŵr lleol. Weithiau gall trapio niweidio rhywogaethau brodorol neu fygwth creaduriaid fel llygod y dŵr a dyfrgwn.

Os yw hyn yn swnio fel llawer o waith llenwi ffurflenni, peidiwch â phoeni. Mae canllaw yn bodoli i'ch helpu. Rydym yn gosod allan yr wybodaeth allweddol sydd arnoch ei hangen yn adran 2.

Gallwch wneud cais am ganiatâd mewn nifer o ddulliau – ar-lein, trwy ffacs neu bost, neu drwy anfon copi wedi'i sganio i ni trwy e-bost o'ch cais wedi'i gwblhau.

Ar-lein

Ewch i www.efishbusiness.co.uk a chofrestru ar gyfer e-ganiatáu. Yna gallwch:

- wneud cais am ganiatadau;
- dilyn trywydd statws cais;
- edrych ar hen geisiadau;

Trwy bost, ffacs neu e-bost

Lawrlwythwch ffurflen o www.efishbusiness.co.uk/formsandguides. Gallwch ofyn yn ogystal am ffurflen trwy alw **Gwasanaethau Cwsmeriaid Asiantaeth yr Amgylchedd ar 08708 506 506**.

Anfonwch ffurflenni wedi'u cwblhau i'r Tîm Symudiadau Pysgod:

Drwy'r post: Tîm Symudiadau Pysgod
Asiantaeth yr
Amgylchedd
Bromholme Lane
Brampton
Huntingdon
Swydd Gaergrawnt
PE28 4NE

Drwy ffacs: 01480 483955 neu
01480 483026

Drwy e-bost: fmapplications@environment-agency.gov.uk



Beth fyddwch yn ei dderbyn

Bydd eich Swyddog Pysgodfeydd lleol yn penderfynu p'un ai i gymeradwyo eich cais ai peidio.

Os cymeradwyir eich cais, byddwch yn derbyn:

1. Caniatâd ysgrifenedig oddi wrth Asiantaeth yr Amgylchedd. Mae hwn yn eich awdurdodi i drapio a hefyd y trapiau rydych yn mynd i'w defnyddio.
2. Tagiau adnabod plastig, o faint cerdyn credyd ar gyfer y nifer o drapiau y gwnaethoch gais amdanynt. Sicrhewch fod y rhain ynghlwm wrth eich trapiau bob amser.
3. Ffurflen adrodd am ddalfa. Cwblhewch hon pan fod eich caniatâd yn dirwyn i ben a'i hanfon i'r Tîm Symudiadau Pysgod yn y cyfeiriad uchod.

2 Gwybodaeth allweddol sydd ei hangen ar gyfer eich cais

Manylion personol

Fel yr ymgeisydd, bydd angen i chi roi eich enw a'ch manylion cysylltu.

Pwy sy'n berchen ar y dŵr ble rydych yn bwriadu trapio?

Rhaid i chi wneud yn siŵr bod gennych ganiatâd y perchennog cyn i chi wneud cais. Nid yw caniatâd oddi wrthym ni yn rhoi caniatâd i chi fynd ar dir rhywun arall.

A fyddwch chi'n defnyddio contractwr?

Os ydych yn mynd i ddefnyddio contractwr er mwyn trapio'r cimychiaid afon, byddwn ni angen eu manylion hwy yn ogystal.

Ynglŷn â'r dŵr

Bydd angen i ni wybod yn union ble fyddwch yn trapio cimychiaid afon. Os gallwch chi, rhowch y cyfeirnod grid cenedlaethol i ni, os gwelwch yn dda. Os ydych yn trapio ar hyd afon, rhowch y pwyntiau i fyny ac i lawr yr afon.

Dod o hyd i'r cyfeirnod grid cenedlaethol: gallwch gael hwn o'r Arolwg Ordnans yn www.ordnancesurvey.co.uk/oswebsite

Unwaith eich bod ar eu gwefan, yr unig beth sy'n rhaid i chi ei wneud yw teipio'r cod post neu enw'r lle i mewn i far chwiliad.o dan 'view maps online'. Bydd map yn ymddangos o'r ardal rydych ei heisiau. O dan y map fe gewch y cyfeirnod grid yn y fformat canlynol: TL 123 456.

Os nad allwch ddod o hyd i'r cyfeirnod grid cenedlaethol, gallwch atodi map. Dylai hwn fod wedi'i anodi'n glir i ddangos lleoliad y dŵr ble'r ydych eisiau trapio cimychiaid afon.

Ynghylch y dasg rydych eisiau ei chyflawni

Rhaid i chi ddweud wrthym pryd rydych yn bwriadu trapio cimychiaid afon. Gallai hyn fod yn unrhyw beth rhwng un diwrnod hyd at gyfnod o 12 mis.

Defnyddio trap: Mae angen i chi ddweud wrthym faint o drapiau rydych yn bwriadu eu defnyddio a chadarnhau eu bod yn cydymffurfio â'r is-ddeddfau cimychiaid afon. Mae'n ddoeth i gael caniatâd oddi wrth Asiantaeth yr Amgylchedd *cyn* i chi brynu eich trap. Gweler adran 6 am fwy o wybodaeth.



Bydd angen i chi ddweud pam rydych yn bwriadu trapio cimychiaid afon. Ai er mwyn eu bwyta eich hunan neu er mwyn eu gwerthu? Neu ydych chi'n cynnal arolwg gwyddonol?

Arolwg neu dynnu o'r safle?

Os ydych chi'n gwneud arolwg o gimychiaid afon brodorol rhaid i chi eu dychwelyd i'r dŵr o ble ddaethant.

Cofiwch na ddylid fyth dychwelyd cimychiaid afon anffrodorol i'r dŵr.

Os nad ydych yn sicr pa fath o gimychiaid afon sy'n byw yn eich ardal chi, rhowch alwad i ni, os gwelwch yn dda. Ffoniwch

Wasanaethau Cwsmeriaid Asiantaeth yr Amgylchedd ar 08708 506 506 a gofyn am gael siarad â'ch Swyddog Pysgodfeydd lleol.

Nid oes angen i chi roi unrhyw fanylion pellach yn y cam hwn.



3 Llenwi'r ffurflen adrodd am ddalfa

Os yw eich swyddog pysgodfeydd lleol yn cymeradwyo eich cais, byddwch yn derbyn:

- tagiau i'w clymu i'ch trap;
- llythyr caniatâd ysgrifenedig a fydd yn gosod allan ble a phryd gallwch drapio;
- ffurflen adrodd am ddalfa.

Ar y ffurflen adrodd am ddalfa rhaid i chi gadw cofnod o'r niferoedd union gywir o gimychiaid yr afon rydych yn eu dal a ble y bu i chi eu dal. Ar ddiwedd y cyfnod a rychwantir gan eich caniatâd, postiwch y ffurflen yn ôl i'r Tîm Symudiadau Pysgod yn y cyfeiriad a ganlyn:

Tîm Symudiadau Pysgod
Asiantaeth yr Amgylchedd
Bromholme Lane
Brampton
Huntingdon
Swydd Gaergrawnt
PE28 4NE

4 Adnabod mathau o gimychiaid yr afon

Mae chwe math anffrodorol o gimwch afon yng Nghymru a Lloegr. Y rhywogaeth fwyaf cyffredin – a'r un sy'n achosi'r problemau mwyaf – yw'r cimwch afon arwyddol.

Cyflwynwyd y cimwch afon arwyddol o Ogledd America yn y 1970au a'u gwerthu i ffermwyr a oeddent yn ceisio dargyfeirio i farchnadoedd newydd. Dihangodd cimychiaid afon o'r ffermydd hyn a sefydlu poblogaethau yn ein hafonydd a'n llynnoedd. Ar ben hyn, sefydlwyd llawer o boblogaethau newydd o ganlyniad i drawsgludiadau.

O dan y Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad mae'n anghyfreithlon i gyflwyno rhywogaethau anffrodorol heb ganiatâd oddi wrth Natural England. Rhaid i bob cimwch afon anffrodorol a ddelir gael ei ladd yn drugarog.

Mae pob rhywogaeth o Ogledd America yn gallu cario'r pla cimychiaid y mae cimychiaid Ewropeaidd yn ei ddal yn hawdd iawn.

Mae'r adran hon yn egluro sut gallwch weld y gwahaniaeth rhwng y rhywogaethau gwahanol.

Darparwyd y lluniau a'r testun adnabod gan David Holdich.

Brodorol (Ewropeaidd)

Cimwch afon crafanc wen

Hyd: Oedolion fel rheol yn llai na 10 cm (gan hepgor y crafangau) ond gallant fod cymaint â 12 cm.

Corff: Fel rheol yn frown neu olewydd o ran lliw. Yn llyfn ond yn fân-bantiog. Dau bâr o wrymiau tu ôl i socedau'r llygaid; fodd bynnag, mae'n bosibl nad yw'r ail bâr yn weladwy. Mae ganddo res o bigau siarp tu ôl ochrau'r rhyngger y gwegil. Mae'r rostrwm (y pwynt sy'n estyn ar gopa'r pen) yn drionglog gydag apig fer iawn.

Crafangau: Mae'r ochr uchaf yn arw. Mae'r ochr isaf yn wyn budr i binc.

Arferion/cynefinoedd: Yn weddol ddof. Yn byw mewn nentydd, afonydd, camlesi, cronfeydd, chwareli llawn dŵr. Yn gallu turio.

Dosbarthiad: Fe'u ceir yng nghanolbarth/gogledd Lloegr ac yn nwyrain Cymru.





Anfrodorol (Gogledd Americanaidd)

Cimwch yr afon arwyddol

Hyd: Oedolion fel rheol oddeutu 15 cm, ond gallant fod yn gymaint â 30 cm.

Corff: Yn gyffredinol yn frown-las i frown-cochlyd. Yn llyfn drosto'i gyd. Dau bâr o wrymiau tu ôl i socedau'r llygaid. Dim pigau tu ôl i'r rhych ar y gwegil. Rostrwm wedi'i ddatblygu'n dda gydag ochrau cyflin ac apig hir.

Crafangau: Yn llyfn ar y ddwy ochr, yr ochr isaf yn goch llachar.

Arferion/cynefinoedd: Ymosodol. Ymledol. Yn byw mewn nentydd, afonydd, cronfeydd, camlesi, chwareli llawn dŵr. Yn turio'n eang.

Dosbarthiad: Fe'u ceir ar draws Lloegr, yn arbennig yn y de, ac yng Nghymru (maent yn bresennol yn yr Alban yn ogystal).



Anfrodorol (Dwyrain Ewrop)

Cimwch afon crafanc gul Twrci

Hyd: Fel rheol 15 cm, ond gallant fod yn gymaint â 30 cm.

Corff: Melyn golau i wyrdd golau. Mae ochrau'r gragen yn arw iawn Dau bâr o wrymiau tu ôl i socedau'r llygaid. Rostrwm wedi'i ddatblygu'n dda gydag ochrau cyflin ac apig hir.

Crafangau: Hir a chul, gyda'r wyneb uchaf yn arw a'r ochr isaf yn un lliw â'r corff.

Arferion/cynefinoedd: Cymharol ddof. Ymledol. Mae'n well ganddynt ddyfroedd mwy llonydd fel y ceir mewn llynnoedd a chamlesi, ond fe'u ceir weithiau mewn afonydd.

Dosbarthiad: Fe'u ceir yn bennaf yn ne-ddwyrain Lloegr a'r Canolbarth.



Anfrodorol (Ewropeaidd)

Cimwch afon nobl

Hyd: Oedolion cymaint â 15 cm.

Corff: Fel rheol yn frown. Yn llyfn. Mae ganddynt res o bigau ar y gragen allanol tu ôl i ochrau'r rhych ger y gwegil. Dau bâr o wrymiau tu ôl i socedau'r llygaid. Rostrwm wedi'i ddatblygu'n dda gydag ochrau cyflin ac apig hir, dannedd llif.

Crafangau: Mae'r ochr uchaf yn arw. Mae'r ochr isaf yn goch nad yw'n llachar.

Arferion/cynefinoedd: Cymharol ddoef. Yn byw mewn nentydd, afonydd, llynnoedd a chronfeydd. Gall durio.

Dosbarthiad: Cronfa a nentydd yn ne-orllewin Lloegr.



Anfrodorol (Gogledd Americanaidd)

Cimwch coch y gors

Hyd: Oedolion fel rheol 10 cm, gallant fod yn gymaint â 15 cm.

Corff: Yn gyffredinol yn goch neu'n frown-cochlyd drostynt i gyd. Maent yn amrywio llawer o ran eu lliw. Mae'r gragen yn arw. Un pâr o wrymiau tu ôl i socedau'r llygaid. Rostrwm trionglog gydag apig gymharol fer.

Crafangau: Coch drostynt i gyd gydag wyneb uchaf pigog.

Arferion/cynefinoedd: Yn ymosodol. Ymledol. Mae'n well ganddynt ddyfroedd llonydd, ond gallant fyw mewn pob math o ddŵr. Gallant durio.

Dosbarthiad: Nifer o safleoedd yn ne Lloegr.





Cimwch afon rhesog

Spiny-cheeked crayfish

Hyd: Oedolion oddeutu 12 cm, neu'n fwy.

Corff: Brown golau (gallant fod yn ddu mewn llynnoedd siltiog) gyda streipiau brown clir ar draws top y gynffon. Pigau amlwg ar yr ochrau o flaen y rhych ger y gwegil. Pâr sengl o wrymiau tu ôl i socedau'r llygaid. Rostrwm wedi'i ddatblygu'n dda gydag ochrau cyflin ac apig hir.

Crafangau: Mae'r wyneb yn fân-bantiog ac yn llyfn i'r cyffyrddiad.

Arferion/cynefinoedd: Yn gymharol ymosodol. Ymledol. Yn byw mewn afonydd, llynnoedd a phyllau graean llawn dŵr. Gallant durio.

Dosbarthiad: Dau leoliad yn y Canolbarth ac un yn nwyrain Lloegr.



Anfrodorol (Gogledd Americanaidd)

Cimwch gwrol

Hyd: Oedolion yn 12cm neu'n fwy.

Corff: Brown. Un pâr o wrymiau tu ôl i socedau'r llygaid. Rostrwm byr a llydan.

Crafangau: Llydan a gwastad, wedi'u hochri gan diwbercwla lliw golau, yr ochr isaf yn olau.

Arferion/cynefinoedd: Yn gymharol ymosodol. Ymledol. Yn byw mewn camlesi, afonydd a llynnoedd.

Dosbarthiad: Dalgylch Lee yng Ngogledd Llundain.



Mae llygod y dŵr yn
cynyddu felly mae mwy
o resymau fyth dros
drapio'n gyfrifol.



5 Gwarchodwch lygod y dŵr

Os oes llygod y dŵr gerllaw, gallwn wrthod eich cais i drapio cimychiaid afon. Mae hyn oherwydd gall trapio fod yn fygythiad i'r anifeiliaid gwarchoddedig hyn.

Rydych yn torri'r gyfraith os ydych:

- yn defnyddio trapiau anghyfreithlon;
- yn caniatáu, yn fyrbwyll, i lygod y dŵr foddï mewn trapiau cimychiaid afon;
- yn gosod trapiau ym mynedfeydd twneli llygod y dŵr.

Mae rheolau llym ar gyfer dyluniad a maint trapiau cimychiaid afon. Gweler adran 6 am fwy o wybodaeth.


Mae safleoedd gyda llawer o lygod o dŵr yn annhebygol o fod â llawer o gimychiaid afon – mae'n well ganddynt gynefinoedd gwahanol. Ond os oes yna lygod y dŵr ble rydych yn dymuno trapio, gallwn ofyn i chi ddefnyddio rhwydi gostwng ag abwyd. Trapiau agored yw'r rhain sy'n ddiogel ar gyfer llygod y dŵr, yn wahanol i'r rhwydi caeedig, simneiog, mwy traddodiadol.

Cofiwch:

- Peidiwch â rhoi trapiau ger tyllau llygod y dŵr. Gall eich Swyddog Pysgodfeydd lleol ddweud wrthyhych sut olwg sydd ar y tyllau hyn.
- Rhaid i chi beidio â rhwystro twll llygoden y dŵr gyda trap cimychiaid afon.
- Os yw'n ddiogel i wneud hynny, gosodwch eich trapiau i ffwrdd o'r glannau. Mae trapiau yng nghanol nant neu gwrs dŵr yn llai tebygol o ddal llygod y dŵr.
- Os ydych yn dal llygoden y dŵr yn ddamweiniol, rhowch y gorau i drapio ar unwaith a rhoi gwybod i'ch Swyddog Pysgodfeydd lleol.
- Gallwch addasu eich trap trwy dorri tyllau dianc yn y to. Bydd tyllau sy'n 6-8 cm ar eu traws yn ddigon mawr.

Am gyngor cyffredinol galwch y **Tîm Symudiadau Pysgod ar 01480 483968**.

Am gyngor lleol, byddwch gystal â galw **Gwasanaethau Cwsmeriaid Asiantaeth yr Amgylchedd ar 08708 506 506** a gofyn am gael siarad â'ch Swyddog Pysgodfeydd lleol.



Mae dyfrgwn wedi'u gwarchod. Mae'n anghyfreithlon i'w lladd nhw. Gallech wynebu dirwy o £5,000 neu hyd at chwe mis o garchar.

6 Gwarchodwch ddyfrgwn

Gan fod angen ein caniatâd ysgrifenedig arnoch er mwyn defnyddio trap cimychiaid afon, mae'n gall i gaffael caniatâd oddi wrth Asiantaeth yr Amgylchedd *cyn* i chi brynu.

Sicrhewch fod y trap rydych yn ei phrynu yn gyfreithlon ar gyfer trapio cimychiaid afon. Mae rheolau llym ynghylch y maint a'r dyluniad. Mae hyn er mwyn gwarchod bywyd gwyllt arall fel dyfrgwn:

- Rhaid i'r fynedfa i'r trap beidio â bod yn fwy na 9.5 cm ar ei thraws.
- Os yw'r fynedfa'n fwy na 9.5 cm ar ei thraws, rhaid bod rhwystr dyfrgwn neu gyfyngiad ar y simnai sy'n arwain i mewn i'r trap.
- Rhaid i'r tyllau yn y rhwyll beidio â bod yn fwy na 3 cm ar eu traws.
- Rhaid i'r fagl ei hun beidio â bod yn fwy na 60 cm o hyd neu 35 cm o led.

Isod ceir tri dull o wneud rhwystr dyfrgwn er mwyn sicrhau fod y fynedfa i'ch trap yn gyfreithlon:

1. Un a wneir o ddeunydd rhwyd hyblyg wedi'i ymestyn yn dynn. Pan fo'n wlyb rhaid i faint y rhwyll beidio â bod yn fwy na 7.5 cm o gwlmw i gwlmw. Rhaid i bob twll beidio â bod yn fwy na 30 cm o amgylch yr ymyl.
2. Dellt sgwâr anhyblyg gyda barrau nad ydynt yn fwy na 8.5 cm ar wahân.
3. Rhwystr anhyblyg ar ffurf cylch wedi'i osod ar y simnai sy'n arwain i fynedfa'r trap. Rhaid i'r pellter ar draws ei du mewn beidio â bod yn fwy na 9.5 cm.

Mae hon yn fagl anghyfreithlon






Os ydych eisiau defnyddio trap nad yw'n cydymffurfio â'r rheolau hyn, bydd angen caniatâd ysgrifenedig arnoch oddi wrth Asiantaeth yr Amgylchedd. Galwch **Wasanaethau Cwsmeriaid Asiantaeth yr Amgylchedd ar 08708 506 506** a gofyn am gael siarad â'ch Swyddog Pysgodfeydd lleol.

Byddwn yn gwrthod llawer o geisiadau oherwydd y peryglon i ddyfrgwn a llygod y dŵr. Mae'r rhain yn rhywogaethau gwarchoddedig. Peidiwch â thorri'r gyfraith.

Noder: Nid yw perchnogion ffermydd pysgod, a'u gweithwyr, angen ein caniatâd ysgrifenedig er mwyn defnyddio trapiau cimychiaid afon yn eu ffermydd pysgod. Fodd bynnag, mae'n rhaid i bob trap gydymffurfio â'r rheolau hyn.



7 Cyflenwyr trapiau cimychiaid afon

Rydym wedi rhestru rhai cyflenwyr, er gwybodaeth yn unig. Nid ydym yn cymeradwyo'r bobl a'r cwmnïau a restrir, na'u cynhyrchion a'u gwasanaethau. Mae llawer o gyflenwyr eraill.

www.solwayfeeders.com

www.alanaecology.com

www.sharnbrooktackle.com

www.trapman.co.uk

www.fishkit.co.uk

www.framlinghamfisheries.co.uk

www.albionmanufacturing.com

www.crayfishremovaloxon.co.uk

www.coastalnets.co.uk

www.collinsnets.co.uk

paulnewmansfm@aol.com

Moore and Moore Carp
01189 882844



Y dull gorau o ddiheintio eich trapiau – ac mae
AM DDIM – yw eu sychu yn yr haul.

8 Ataliwch bla cimychiaid afon rhag lledaenu

Diheintiwch eich trapiau

Daw'r bygythiad mwyaf i'n cimychiaid afon brodorol crafanc wen o haint ffwngaidd o'r enw pla cimychiaid afon. Caiff hwn ei gario gan y cimychiaid afon arwyddol anffrodorol sydd erbyn hyn yn goruchafu mewn llawer o ddyfroedd Cymru a Lloegr.

Os ydych yn trapio cimychiaid afon arwyddol, neu buoch yn pysgota mewn dyfroedd wedi'u heintio, byddwch yn ofalus dros ben. Glanhewch a diheintiwch eich offer yn gywir. Mae'n hawdd iawn i ledaenu'r haint hwn.

Cyngor cyffredinol

Mae angen i chi ddiheintio trapiau ac offer pysgota arall yn unig os ydych yn mynd i'w defnyddio'n rhyw le arall. Os byddwch bob amser yn eu defnyddio yn yr un dŵr nid oes perygl o ledaenu pla cimychiaid afon.

Dulliau diheintio

Mae nifer o dulliau o ddiheintio trapiau. Ond y cam cyntaf bob amser yw cael gwared ar yr *holl* laid a deunydd planhigol oddi arnynt.

Sychu yn yr haul

Sychwch eich offer yn drylwyr yng ngolau'r haul. Dyma'r dull mwyaf diogel ac effeithiol. Sicrhewch eich bod yn awyru holl wynebau'r trap a bod y trap yn hollol sych.

Diheintio cemegol – iodophors

Gallwch brynu iodophors o gyflenwyr amaethyddol fel golchydd pyrsau. Sicrhewch eich bod yn gwanhau'r cymysgedd yn unol ag argymelliadau'r gwneuthurwr. Naill ai trochwch y trapiau yn y toddiant neu ei chwistrellu arnodd. Gadewch nhw am o leiaf 15 munud cyn eu strello gyda digon o ddŵr. Mae eich offer yn awr yn barod i'w aildefnyddio.

Pwysig: Gwaredwch gemegolion yn gyfrifol! Peidiwch â chaniatáu i'r cemegolion gwastraff fynd i mewn i ddraeniau dŵr wyneb. Hefyd, mae iodophors yn diraddio'n gyflym mewn golau haul: storiwch nhw mewn lle tywyll. Dylai iodophors fod yn lliw brown tywyll. Unwaith ei fod yn colli'r lliw hwn, ni fydd yn gweithio'n iawn wedi hynny ac mae angen i chi ei adnewyddu.



Virkon Aquatic

Cynhyrchir gan DuPont. Mae'r diheintydd amlbwrpas hwn yn effeithiol yn erbyn llawer o firysau a bacteria. Mae hefyd yn lladd sborau ffwngaid fel pla cimychiaid afon. Sicrhewch eich bod yn dilyn cyfarwyddiadau'r gwneuthurwr. Fel rheol bydd angen i chi ddefnyddio toddiant 1 y cant am 10 munud, ond gall cynhyrchion gwahanol amrywio. Gwiriwch hyn bob amser. Er bod y cynnyrch yn fiogdiraddadwy, rhaid i chi barhau i strelio'r trapiau'n drylwyr cyn eu haildefnyddio. Gallwch gaffael Virkon Aquatic o gyflenwyr amaethyddol. Gallwch ei brynu, yn ogystal, ar ffurf tabled doddadwy, o siopau adwerthu acwariwm.

Os ydych yn defnyddio diheintydd cemegol, rhaid i chi sicrhau eich bod yn:

- dilyn y cyfarwyddiadau ar gyfer ei ddefnyddio;
- cydymffurfio â holl gyngor iechyd a diogelwch y gwneuthurwr;
- gwaredu cemegolion gwastraff yn gyfrifol – dilynwch gyfarwyddiadau'r gwneuthurwr.

Am gyngor pellach ynghylch gwaredu diheintydd gwastraff, byddwch gystal â chysylltu â'ch **Tîm Rheoli'r Amgylchedd lleol Asiantaeth yr Amgylchedd ar 08708 506 506.**

Mae pla cimychiaid afon yn hawdd i'w ledaenu ac yn farwol, gall ddinistrio poblogaethau lleol yn llwyr mewn wythnosau, felly sicrhewch eich bod yn diheintio eich trapiau.

9 Gwybodaeth bellach

Yn ystod y blynyddoedd diweddar, mae mwy o bobl wedi ymddiddori mewn dal cimychiaid afon i'w bwyta. Bydd y rhan fwyaf ohonynt yn trapio o ddiwedd y gwanwyn hyd ddechrau'r hydref ac yn aml un trap yn unig sydd ganddynt. Mae'r farchnad fasnachol ar gyfer gwerthu cimychiaid afon yn y DU yn fach iawn.

Ni allwch ddal cimychiaid afon brodorol i'w bwyta na'u gwerthu.

Bydd angen i bawb, bron, fod â chaniatâd ysgrifenedig er mwyn trapio cimychiaid afon.

Beth yw'r broblem gyda thrapio cimychiaid afon anffroddol?

Yn fynych, bydd trapiâu'n dal y cimychiaid afon mwy o faint, gan adael y rhai llai i fridio'n doreithiog. Gall hyn arwain at ffrwydrad poblogaeth.

Mae ein cimychiaid afon brodorol dan fygythiad o rywogaeth anffroddol ymosodol sy'n cario haint ffwngaidd o'r enw pla cimychiaid afon. Nid yw'r haint hwn yn gwneud niwed i bobl ond yn aml mae'n llethol i'n cimychiaid afon brodorol. Os nad ydych yn diheintio eich

offer yn drylwyr, gallwch ledaenu pla cimychiaid afon yn hawdd. Diheintiwch eich offer bob amser cyn i chi symud i safle arall.

Rhaid i chi beidio â defnyddio cimychiaid afon fel abwyd pysgota am yr un rheswm. Gall sborau o'r pla oroesi am gymaint â phythefnos – hyd yn oed mewn tymereddau islaw'r pwynt rhewi.

Fedra'i ddim helpu i gael gwared ar y rhywogaeth anffroddol?

Gall hyn ymddangos fel syniad da, ond yn ymarferol mae bron yn amhosibl i'w gyflawni. Byddai angen i chi barhau i drapio am gyfnodau hir er mwyn lleihau niferoedd yn sylweddol.

Beth arall sydd angen i mi feddwl amdano?

Rhaid i chi ladd y cimychiaid afon a drapiwyd mewn dull diogel a thrugarog.

Weithiau bydd nifer o bobl eisiau trapio yn yr un lle. Byddwch yn ystyriol.



A yw fyth yn dderbyniol i drapio cimychiaid afon brodorol ?

Gallant gael eu trapio'n unig ar gyfer pwrpasau gwyddonol a byddai angen trwydded arnoch oddi wrth Natural England neu Gyngor Cefn Gwlad Cymru. Byddwch gystal â siarad â'ch Swyddog Pysgodfeydd lleol cyn cychwyn.

A gaf i gadw cimychiaid afon yn fyw?

Mae rhai pobl yn hoffi cadw cimychiaid afon yn fyw am ychydig o ddyddiau cyn eu bwyta.

Ar gyfer cadw cimychiaid afon arwyddol yn fyw yn yr ardaloedd hynny ble maent ar gael yn eang ac wedi'u sefydlu'n dda, fe'ch rhychwantir gan 'drwydded i gadw' gyffredinol. Os ydych yn trapio yn un o'r ardaloedd hyn, nid oes angen caniatâd ychwanegol arnoch er mwyn cadw'r cimychiaid afon a drapiwyd yn fyw.

Tu allan i'r ardaloedd hyn byddwch angen 'Trwydded er mwyn cadw cimychiaid afon anffrodorol' arbennig. Rhoddir y trwyddedau gan Defra (Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig).

Bydd angen i chi wirio p'un ai ydych angen y drwydded arbennig hon ai peidio. Byddwch gystal â galw Gwasanaethau Cwsmeriaid Asiantaeth yr Amgylchedd ar 08708 506 506 a gofyn am gael siarad â'ch Swyddog Pysgodfeydd lleol. Bydd o gymorth os ydych yn gwybod enw'r dref agosaf i'r dŵr ble rydych yn dymuno trapio.

Os oes angen trwydded arbennig arnoch, mae'n debygol y bydd hon yn ardal ble'r ydym yn annhebygol o gymeradwyo cais i drapio beth bynnag.

Y cyngor cyffredinol yw lladd y cimychiaid afon mewn modd trugarog pan ddaliwch nhw. Byddwch yn ofalus i beidio â lleadaenu pla cimychiaid afon.

10 Pwy i gysylltu â nhw

Am ragor o gyngor cyffredinol, galwch ein Tîm Symudiadau Pysgod:

Post: Asiantaeth yr Amgylchedd
Bromholme Lane
Brampton
Huntingdon
Swydd Gaergrawnt
PE28 4NE

Ffôn: 01480 483968

Ffacs: 01480 483955
or 01480 483026

E-bost: neuapplications@environment-agency.gov.uk

Dylai perchnogion ffermydd pysgod gysylltu'n uniongyrchol â ni.

Am gyngor penodol ynghylch eich ardal, neu ynghylch eich ffurflen gais wedi'i chwblhau, mae croeso i chi alw **Gwasanaethau Cwsmeriaid Asiantaeth yr Amgylchedd ar 08708 506 506** a gofyn am gael siarad â'ch Swyddog Pysgodfeydd lleol. Byddant hefyd yn gallu dweud wrthyich p'un ai ydym yn rhoi caniatadau yn eich ardal chi ai peidio.

Gallwn, yn ogystal, ddarparu taflen dechnegol ar adnabod rhywogaethau a disgrifiad llawn o'r is-ddeddfau perthnasol. **Byddwch gystal â galw 08708 506 506.**

Blwyddyn Ryngwladol Bioamrywiaeth 2010

Rydych chi'n rhan annatod o natur: mae eich tynged chi wedi'i gysylltu'n agos iawn â bioamrywiaeth, yr amrywiaeth anferth o anifeiliaid a phlanhigion eraill, y mannau lle maent yn byw a'u hamgylcheddau amgylchynol, dros y byd i gyd.



Rydych yn dibynnu ar yr amrywiaeth hwn o fywyd i roi'r bwyd, tanwydd, moddion a hanfodion eraill i chi nad allwch, yn syml, fyw hebddynt. Ond collir yr amrywiaeth cyfoethog hwn ar raddfa sy'n cyflymu o ganlyniad i weithredoedd y ddynoliaeth. Mae hyn yn ein gwneud ni oll yn dlotach ac yn gwanhau gallu'r systemau byw, yr ydym yn dibynnu arnynt, i wrthsefyll bygythiadau cynyddol fel newid yn yr hinsawdd.

Mae 2010 yn Flwyddyn Ryngwladol Bioamrywiaeth, ac mae pobl dros yr holl fyd yn gweithio er mwyn diogelu'r cyfoeth naturiol hwn nad ellir mo'i adnewyddu a lleihau colledion bioamrywiaeth. Mae hyn yn hanfodol ar gyfer lles y ddynoliaeth yn awr ac yn y dyfodol. Mae angen i ni wneud mwy. Nawr yw'r amser i weithredu.

Mae dyfrgwn a llygod y
dŵr yn rhywogaethau
gwarchoddedig



A hoffech gael gwybod mwy am Asiantaeth yr Amgylchedd neu am eich amgylchedd?

Yna ffoniwch ni ar

08708 506 506 (Llun–Gwener 8–6)

e-bost

enquiries@environment–agency.gov.uk

neu ymwelwch â'n gwefan

www.asiantaeth–amgylchedd.gov.uk

llinell argyfwng 0800 80 70 60 (24 awr)

llinell llifogydd 0845 988 1188

*Amcangyfrif o gost galwadau: 8c a 6c y funud (llinell tir safonol).

Nodwch y bydd prisiau gwahanol ddarparwyr gwasanaethau ffôn yn amrywio.



Yr amgylchedd yn gyntaf: argreffir yr adroddiad hwn ar bapur wedi ei wneud yn gyfan gwbl o wastraff a ddefnyddiwyd eisoes. Defnyddir isgynhyrchion gwneud y mwydion a'r papur ar gyfer compostio a gwrtaith, gwneud sment a chynhyrchu trydan.



Environment
Agency

using the right trap



A guide to crayfish trapping

We are the Environment Agency. It's our job to look after your environment and make it a better place – for you, and for future generations.

Your environment is the air you breathe, the water you drink and the ground you walk on. Working with business, Government and society as a whole, we are making your environment cleaner and healthier.

